Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Jane Hutt AC**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, ac yn benodol ar broses ystyried cydraddoldeb yn y gyllideb.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth/ Policy and Legislation Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8032
Ebost / Email: CELG.Committee@wales.gov.uk

## 1. Cyfyngiadau'r gyllideb

Nodwn fod y prif ostyngiadau yn y gwariant y manylir arnyn nhw yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys gostyngiad sylweddol ar gyfer addysg ar ôl 16, addysg a dewis gyrfa, Rhaglen Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf. O gofio bod y rhain yn cynnwys meysydd allweddol o wariant ataliol, rydym yn poeni ynglŷn ag effaith y gostyngiadau hyn, yn enwedig felly ar grwpiau sy'n agored i niwed. Yn y cyd-destun hwn, ac oherwydd y cynnydd arwyddocaol mewn cyllid i iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn poeni ei bod yn ymddangos bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau iechyd cyn gwasanaethau atal, megis y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Rydym yn poeni ynghylch effaith gyffredinol y gostyngiad o £10 miliwn i'r Rhaglen Cefnogi Pobl, effaith hyn ar gyflawni'r Rhaglen ac ar allu grwpiau sy'n agored i niwed i sicrhau cyngor a chymorth y mae angen dybryd amdanyn nhw. Yn ychwanegol, rydym yn amau nad oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r goblygiadau ynglŷn â chostau gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys iechyd, yn sgil gostwng cyllid y Rhaglen. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o fanylion gennych am unrhyw ddadansoddiad o'r costau a'r buddion a wnaed er mwyn bwydo'r penderfyniad i leihau cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn gysylltiedig â hyn, nodwn eich bod yn bwriadu gwneud asesiad o effaith y gostyngiad ariannol hwn ac fe fyddem yn croesawu manylion am hyn cyn gynted ag y byddant ar gael.

Yn ystod y sesiwn tystiolaeth, dywedasoch fod codi lefelau sgiliau gweithlu Cymru yn allweddol o ran eich uchelgais o drechu tlodi. Er gwaethaf yr haeriad hwnnw, mae cyllid i addysg ar ôl 16 ac i Gyrfa Cymru wedi cael ei leihau. Rydym yn poeni y gallai'r gostyngiad yn yr arian hwn beri rhagor o anfantais i grwpiau sy'n cynnwys NEETs, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, sydd eisoes yn wynebu risg uwch o dlodi.


## 2. Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA)

Gwyddom fod Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) yn bodoli ers dwy flynedd bellach a'i fod, yn ôl eich tystiolaeth chi, wedi bod yn bur ddylanwadol yn barod, er na fyddech chi o reidrwydd yn cael eich llywio gan y Grŵp. Gan hynny, rydym yn aneglur ynghylch rôl BAGE. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am ei rôl, ac yn enwedig i ba raddau y gall BAGE ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y gyllideb ddrafft a'i effaith ar benderfyniadau ar y gyllideb derfynol ar draws portffolios Llywodraeth Cymru. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod, fe fydden ni hefyd yn hoffi cael cofnodion holl gyfarfodydd BAGE, gan gynnwys y cyfarfod ar 23 Hydref pryd y deallwn y bydd y Grŵp yn cyfarfod i drafod cyllideb ddrafft 2015-16.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) cyntaf wedi'i gyhoeddi ac yn croesawu'r camau rydych chi wedi'u cymryd i wella'r broses o asesu effeithiau. Credwn fod yna gyfle i BAGE chwarae rhan fwy dylanwadol yn natblygiad yr SIIA, gan ddarparu dadansoddiad beirniadol o'r gyllideb ddrafft. Byddem yn hoffi ichi ystyried hynny cyn y gyllideb nesaf ac adrodd yn ôl inni ar ganlyniad eich ystyriaethau.

Yn olaf, hoffem hefyd ichi ystyried a oes yna le i BAGE wrth gydgasglu ac asesu asesiadau cyllidebau'r awdurdodau lleol, gyda golwg ar ddod o hyd i effaith gronnol penderfyniadau ar gyllidebau ar grwpiau penodol ac adrodd yn ôl inni ar hyn.

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**

Cadeirydd / Chair

cc Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid